Yma am *byth*
Here for *good*

Pecyn cymorth proffesiynol



Mae'r pecyn cymorth hwn yn darparu canllawiau ymarferol er mwyn trafod rhoddion gyda chleientiaid, gan gynnwys awgrymiadau ar gyfer sgyrsiau, geiriad posib, a gwybodaeth am elusennau yng Nghymru er mwyn cefnogi penderfyniadau gwybodus a helpu i sicrhau bod rhoddion yn cyrraedd y lle iawn.

Awgrymiadau ar gyfer sgyrsiau

Gall penderfyniadau ynghylch rhoddion mewn Ewyllysiau fod yn gymhleth, a gall manylion bach wneud gwahaniaeth mawr. Mae dechrau'r sgwrs yn gynnar yn helpu pobl i wneud dewisiadau gwybodus a sicrhau bod rhoddion sydd wedi'u bwriadu ar gyfer Cymru yn cyrraedd y cymunedau maen nhw am eu cefnogi.

Ffordd syml o ddechrau sgwrs

"Fel rhan o'ch ewyllys, mae rhai pobl yn hoffi cynnwys rhodd elusennol ochr yn ochr â'r hyn maen nhw'n ei adael i deulu a ffrindiau. A yw hynny'n rhywbeth yr hoffech chi ei ystyried, ac os felly, a hoffech iddo fod o fudd i achos yma yng Nghymru?"

Os yw'r cleient yn dweud HOFFWN

"A oes achos, cymuned neu sefydliad penodol yng Nghymru sy'n bwysig i chi?"

"A hoffech chi i hyn gefnogi rhywle sy'n lleol i chi, neu Gymru yn ehangach?"

"A oes gennych chi ewyllys sy'n cynnwys rhodd elusennol yn barod? Efallai ei bod hi'n werth gwirio bod y geiriad yn adlewyrchu'r hyn rydych chi eisiau o hyd."

Os oes gan gleient ewyllys yn barod

"Pryd wnaethoch chi adolygu'r rhoddion elusennol yn eich ewyllys ddiwethaf? Mae'n syniad da gwirio bob ychydig flynyddoedd i sicrhau bod y geiriad yn adlewyrchu eich dymuniad o hyd, yn enwedig os hoffech chi iddo fod o fudd i rywle penodol yng Nghymru."

Enghraifft o eiriad

Dylid bob amser gwblhau'r geiriad yn unol ag arferion drafftio safonol eich cwmni eich hun. Enghreifftiau cychwynnol yw'r rhain, nid templedi cyfreithiol wedi eu cymeradwyo.)

Geiriad cyffredinol:

"Rwy'n rhoi [swm/cyfran] i elusen ar gyfer ymchwil i ganser."

Geiriad cliriach, penodol:

"I give [amount/share] to Cancer Research Wales (registered charity number [XXXXXX]) of [address], for its general charitable purposes."

Mae'r un egwyddor yn berthnasol ar draws achosion:

mae enwi'r elusen gofrestredig uniongyrchol, ei rhif cofrestru, a'i chyfeiriad yn dileu unrhyw amwysedd, yn enwedig lle bo sefydliad ag enw tebyg yn bodoli mewn man arall yn y DU.

Awgrym byr ar gyfer cleientiaid sydd eisiau i'w rhodd aros o fewn Cymru yn gyffredinol yn hytrach nag enwi un sefydliad:

"Rwy'n rhoi [swm/cyfran] i'w rhannu'n gyfartal rhwng elusennau sydd wedi'u cofrestru yng Nghymru ac sy'n gweithredu er budd cymunedau yng Nghymru, fel y'i dewisir gan fy ysgutorion."

Professional toolkit

Yma am *byth*
Here for *good*

Dryswch ynghylch enwau

Mae hi werth cadw rhestr gyfeirio fer pan fydd cleient yn defnyddio enw cyffredinol wrth sôn am achos, yn hytrach nag enw elusen benodol:

Cancer Research Wales Mae **Ymchwil Canser Cymru** yn gwbl wahanol i Cancer Research UK. Ni fydd rhodd i un yn mynd at y llall.

Mae **Elusen Ambiwlans Awyr Cymru** yn gweithredu'n annibynnol ar elusennau ambiwlans awyr yn Lloegr a'r Alban.

Efallai y byddai'n well cyfeirio rhoddion sy'n canolbwyntio ar y gymuned ac sy'n cael eu disgrifio'n syml fel rhai "ar gyfer y gymuned", drwy **Sefydliad Cymunedol Cymru**. Gall y sefydliad hwn gyfeirio arian at achosion lleol ledled y wlad.

Mae'n werth gwirio'n ofalus gyda'r cleient pa sefydliad maent yn ei olygu, yn hytrach na chymryd yn ganiataol taw'r enw mwyaf adnabyddus yw'r un cywir.



Ynglŷn â'r partneriaid a'i sefydlodd



Sefydliad Cymunedol Cymru

Yn cysylltu rhoddion ag achosion a chymunedau lleol ledled y wlad.

Sefydliad Cymunedol Cymru
Community Foundation Wales



Sefydliad Pêl-droed Cymru

Yn cefnogi pêl-droed ar bob lefel yng Nghymru, o lawr gwlad i'r tîm cenedlaethol.

CYMRU FOOTBALL FOUNDATION



Elusen Ambiwlans Awyr Cymru

Gwasanaeth ambiwlans awyr brys Cymru.

Elusen Ambiwlans Awyr CYMRU | WALES Air Ambulance Charity



Ymchwil Canser Cymru

Elusen Gymreig annibynnol sy'n ariannu ymchwil canser a gynhelir yng Nghymru.

ymchwil canser cymru
cancer research wales

Gall un sgwrs syml sicrhau bod dymuniad yn cael effaith barhaol. Am ragor o wybodaeth, ewch i yourlegacyforwales.co.uk/cy.